



# Y NEGESYDD

CHWEFWROR 2020

## CYFARFODYDD

- Dydd Sadwrn, 1 Chwefror :** *Bore coffi a siop Traidcraft o 10:00 tan 12:00.*
- Dydd Sul, 2 Chwefror :** *Oedfa gymun am 10:00 yng ngofal ein gweinidog. Ysgol Sul y plant a'r ieuentid yn ystod yr oedfa. Ysgol Sul yr oedolion wedi'r oedfa. Oedfa am 5:30 yng ngofal ein gweinidog.*
- Dydd Sul, 9 Chwefror :** *Oedfa'r bore am 10:00 yng ngofal ein gweinidog. Ysgol Sul y plant a'r ieuentid yn ystod yr oedfa. Ysgol Sul yr oedolion wedi'r oedfa. Oedfa am 5:30 yng ngofal ein gweinidog.*
- Nos Iau, 13 Chwefror :** *7 tan 8:30 'Awn ati i Adeiladu!' Cyfle i wyllo fideo a thrafod sut eglwys da ni angen bod ar ddechrau degawd newydd.*
- Dydd Sul, 16 Chwefror :** *Oedfa Genhadol am 10:00 yng ngofal Dr Menna Machreth. Ysgol Sul yr oedolion wedi'r oedfa. Oedfa am 5:30 yng ngofal Eleri Lloyd Jones.*
- Dydd Mawrth, 18 Chwefror :** *Paned a sgwrs anffurfiol yn y festri, 2:00 tan 4:00.*
- Dydd Sul, 23 Chwefror :** *Oedfa'r bore am 10:00 yng ngofal ein gweinidog. Ysgol Sul yr oedolion wedi'r oedfa. Oedfa undebol yn Emaus am 5:30 yng ngofal ein gweinidog.*

## DYLETSWYDDAU

- Llywydd y mis :** Gwilym Owen
- Cymun :** Gwilym Owen  
Siân Arwel Davies  
Gwyn Eirug Davies  
Alison Carden
- Wrth y drws :** Delyth Murphy  
Bernard Jones

## BLODAU

- Chwefror 2 :** Dilwen Ll. Jones
- Chwefror 9 :** Dilwen Ll. Jones
- Chwefror 16 :** Delyth Murphy
- Chwefror 23 :** Delyth Murphy

## Y DDRAMA DOLIG A'R PARTI

Fore Sul, 22 Rhagfyr bu plant ac ieuencid yr Ysgol Sul yn perfformio drama'r Geni yn ôl eu harfer. Drwy gyfrwng gair a chân, cafwyd perfformiad naturiol ond hynod raenus o hanes y Geni. Cawsom ddeuawd pres gan Aron a Morgan, unawd gan Cian Iolen a braf oedd gweld Carys yn cyfeilio i un garol gynulleidfaol ar yr organ.

Gwnaeth pawb eu gwaith yn rhagorol a rhaid diolch i'r athrawon a'r rhieni am eu hyfforddi ac am eu cefnogaeth.

Yn dilyn yr oedfa, aeth y plant a'r ieuencid i lawr i'r festri lle cawsant fwynhau eu parti Nadolig. Roedd gwledd wedi ei pharatoi ar eu cyfer a chafodd pawb hwyl yn chwarae gemau amrywiol. Uchafbwynt y parti heb os oedd ymweliad gan Siôn Corn ac roedd pawb yn ddiolchgar am yr anrhegion.



Pawb mewn harmoni



Pawb yn barod





## TIA FI



Dyma luniau o  
Barti Ti a Fi  
a gynhaliwyd  
yn y festri  
fore lau,  
19 Rhagfyr .

Cafodd tua dwsin o blant  
fodd i fyw yn y parti  
ac uchafbwynt y bore  
oedd ymweliad gan  
Siôn Corn ei hun.  
Diolch i bawb fu'n gyfrifol  
am drefnu'r parti ac i Siôn  
Corn ei hun wrth gwrs.



## YN YR YSBYTY

Mae Beryl Davies bellach yn ysbyty Eryri ac anfonwn ein cofion ati.  
Anfonwn ein dymuniadau gorau at Bill Becket, gŵr Pat Becket sydd yn treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

## DYMUNIADAU GORAU

Dymunwn yn dda i Gareth Roberts Garth Uchaf wrth iddo barhau i wella wedi llawdriniaeth. Anfonwn ein cofion at David Parry Jones sydd adre wedi cyfnod byr yn yr ysbyty.

Mae Dilys Parry Williams wedi gadael Ysbyty Gwynedd ac mae hi bellach yng Nghartref Gofal Ceris, Treborth ac mae Enid Roberts hithau, wedi gadael Ysbyty Eryri ac y mae yn awr yng Nghartref Gofal Cerrig yr Afon yn Y Felinheli.

Anfonwn ein cofion at ein holl aeolodau sydd mewn cartrefi gofal a'r rhai sy'n gaeth i'r cartref oherwydd salwch neu lesgedd.

## GADAEL Y GOGLEDD

Dymuniadau gorau i Gwen Aaron wrth iddi barhau i wella oddi wrth llawdriniaeth i'w choes a gafodd noswyl Nadolig. Rydym yn drist i ddeall fod Gwen yn symud i Aberystwyth yn fuan ond yn hapus iawn drosti ei bod yn symud yn ôl i dre ei mebyd ac i gwmni ei dwy chwaer.

## TRADCRAFT 2019



Cafwyd blwyddyn lwyddianus arall yn Emaus, ac yn wir i Traidcraft wrth iddynt ailgreu eu hunain ar ôl problemau llynedd. Diolch i bawb fu'n

helpu a chefnogi y boreuau coffi bob mis. Unwaith eto, rhoddwyd cyfraniadau i elusennau o'r elw:-

£100 i BMS

£100 i Cymorth Cristnogol (yr apêl Nadolig)

£150 i Traidcraft Exchange, sy'n cynnwys y gwerthiant llyfrau.

*Catrin*

## TRADCRAFT 2020

Bydd bore coffi cynta'r flwyddyn dydd Sadwrn Chwefror 1af o 10 hyd 12 o'r gloch.

*Croeso cynnes i bawb*

## PANED A SGWRS



### MYFYRWYR O MADAGASCAR FELANA A TATAMO GDYA'R GWEINIDOG

Cawsom y pleser o groesawu dwy fyfyrwraig o Fadagasgar i gyfarfod '*paned a sgwrs*' Rhagfyr. Enillodd Felana Lantovololona a Tatamo Andriamoria ysgoloriaethau Chevening i astudio ym Mangor. Mae Felana yn dilyn cwrs Meistr mewn Bioleg Moleciwlaidd gyda Biotechnoleg ym maes geneteg a Tatamo yn dilyn cwrs Meistr mewn Seicoleg gan roi sylw arbennig i seicoleg plant.

Dymunwn yn dda i'r ddwy wrth iddynt ymroi i'w hastudiaethau ac edrychwn ymlaen at gael rhagor o'u cwmni yn ystod y flwyddyn.

## CÔR EMAUS YN CYFRANNU I'R PLYGAIN YN Y GADEIRLAN ELENÍ



i'r eglwys, lle byddai unigolion, deuwadau, grwpiau a theluoedd wedyn yn mynd i du blaen yr eglwys i ganu carolau'r plygain.

Bu bron i'r arferiad o ganu plygain farw allan heblaw am gnewyllyn bychan o eglwysi yn yr hen sir Drefaldwyn.

Mae adnewyddiad a diddordeb newydd yn y Plygain a chynhelir dros 50 o wasanaethau drwy Gymru erbyn hyn.

Yn draddodiadol, gwasanaeth Nadolig wedi'i gynnal rhwng tri a chwech y bore oedd y plygain. Yn dyddio yn ôl i'r adeg cyn y diwygiad Protestanaidd yn yr 16eg ganrif, yr oedd ffurf y plygain yn amrywio o le i le. Weithiau gyda gorymdaith o'r pentref



## CANOLFAN ELWYN

Cynhaliwyd seremoni arbennig iawn ddiwedd Tachwedd gan y Samarïaid i enwi eu canolfan ym Mharc Menai yn 'Canolfan Elwyn', er cof am y diweddar Barchedig Elwyn Jones o Dalwrn a fu farw ym mis Gorffennaf y llynedd. Elwyn oedd un o sylfaenydd Cangen Gogledd-Ddwyrain y Samarïaid yn 1984. Yn ei hanerchiad wrth ddadorchuddio'r llechen, dywedodd Bethan Wyn Jones, gweddw Elwyn, gymaint oedd y Samarïaid yn ei olygu iddo. Mae'r eglwys wedi derbyn llythyr gan y Samarïaid yn diolch am ein casgliad o £251. Ar ran y Samarïaid, ysgrifennodd Tudur Williams: "Mae'n costio tua £30K y flwyddyn i sicrhau parhad y gwasaneth a bydd eich cyfraniad yn gymorth mawr i anelu at y nod eleni".



## ELWYN

I ŵr â greddf Samaria - yn ei fyw,  
Ni rown fawl yn goffa,  
'Mond dweud: Elwyn y dyn da,  
Elwyn yr un anwyla'.  
Dylan Iorwerth

## Y GRŴP DARLLEN



Y llyfr  
i'w drafod  
pnawn Gwener  
Chwefror 7fed.  
am 2 o'r gloch,  
fydd  
**FFLUR**  
gan  
Lloyd Jones



## DIOLCH

*Ar ddechrau blwyddyn arall,  
carem ddiolch i bawb sydd  
wedi gosod blodau ar gyfer  
yr oedfaon.*

*Mae croeso i unrhyw un roi ei  
enw ar y rhestr sydd yn y  
cyntedd.*

*Gofynnwn yn garedig i chi  
roi blodau am bythefnos a  
chynnwys eich enw a  
chyfenw i osgoi unrhyw  
ddryswch.*

*- Mawr ddiolch,  
Kath a Meriel*



## GORIAD

PAPUR BRO BANGOR A'R FELINHELI

Mae **GORIAD** yn cynnig copi pdf o'r papur am 60c y copi ( *yr un pris â'r papur* ).

Am ragor o fanylion am y cynllun hwn, cysylltwch gyda


[papurbrogoriad@yahoo.co.uk](http://papurbrogoriad@yahoo.co.uk)




Mae rhifyn lonawr yn rhoi sylw i Emaus ar ei dudalen flaen.

Nid yw Emaus yn ymddangos ar dudalen flaen pob rhifyn ond ceir adroddiadau rheolaidd yng ngorff y papur am Emaus ac eglwysi eraill yr ardal

## DAETH DAU I EMAUS I DRWSIO'R TO



Yng nghanol glaw a gwynt mis lonawr cwblhawyd gwaith ar y to fel rhan o raglen cynnal a chadw yr adeilad.



## CYMRAWD

Llongyfarchiadau calonog i Gwilym Owen, Tregarth ar gael ei ethol yn Gymrawd o'r

Gymdeithas Hanesyddol Frenhinol fel cydnabyddiaeth o'i gyfraniad i gyhoeddiadau academiaidd yn ymwneud â hanes y gyfraith.

## CRACER NADOLIG

Un o gyhoeddiadau poblogaidd Cyhoeddiadau'r Gair ar gyfer y Nadolig oedd y gyfrol hon gan



Huw John Hughes, sy'n llawn o straeon am draddodiadau ac arferion y Nadolig dros y canrifoedd. Huw John wedi ymddeol? Sgersli bilif!



## Y GENHADAETH DYDD GWEDDI'R BMS Llun, Chwefror 3ydd

*Mae gwybodaeth  
a syniadau i'w  
gweld ar wefan y  
gymdeithas.*

<[bmsworldmission.org](http://bmsworldmission.org)>

### DYMA FLAS O'R HYN SYDD AR GAEL:-

Gweddiwn am ddoethineb, diogelwch a dyfalbarhad i'n gweithwyr cenhadol ble bynnag maent yn gwasanaethu yn y byd. Gweddiwn am anogaeth i'n gweithwyr dros y byd.

Gweddiwn dros y rhai sydd wedi'i effeithio gan drychineb gan ofyn i Dduw ddod a heddwch a sefydlogrwydd i'w bywydau.

### AGOR Y BLYCHAU - Chwefor 16eg

Unwaith eto, byddwn yn croesawu Menna Machreth atom ar y trydydd Sul - pryd y cynhelir ein Sul Cenhadol blynyddol. Bydd Menna yn sôn am Timothy Richards, Cenhadwr arbennig iawn wnaeth waith gwych yn China gyda'r BMS (*Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr*). Yn dilyn y gwasanaeth, agorir y blychau cenhadol ac fe fydd amlenni yn y seddau ar gyfer unrhyw un sydd heb flwch ac sydd yn dymuno rhoi rhodd. Mae'r casgliad yma'n sylfaen pwysig i'n cyfraniad blynyddol fel eglwys at y BMS. Fe fydd y casgliad ar agor tan ddiwedd mis Chwefror.

### STAMPIAU

Llawer o ddiolch am y cnwd helaeth o stampiau gasglwyd dros dymor y Nadolig. Llawer o ddiolch I'r rhai sydd yn eu paratoi cyn eu cyflwyno.

Daliwch ati drwy 2020. Byddaf yn eu didoli cyn eu hanfon gan fod hyn yn hwyluso gwaith y gwirfoddolwyr sy'n eu trin yn Didcot.

*Sian Arwel Davies*

## CINIO CALAN DROS BONT MENAI



### PARATOI Y NEGESYDD

**Diolch yn fawr iawn i Gareth Ffowc Roberts  
ac Eleri Lloyd Jones  
am gasglu a chydlynu'r wybodaeth  
ar gyfer y rhifyn yma o'r Negesydd**

\*\*\*\*

*Dylid gyrru'r holl wybodaeth ar gyfer rhifyn  
Mawrth 2020 y Negesydd*

i

**Nia Llwyd**

**e-bost: [niallwyd@btinternet.com](mailto:niallwyd@btinternet.com)**

**neu Ffôn : 370650**

*erbyn Chwefror 16, fan bellaf*

## GAIR GAN Y GWEINIDOG

### - DELIO GYDA NEWYDDION DRWG

*Ble roeddech chi pan glywsoch chi'r newyddion drwg am y tyrrau yn syrthio yn Efrog Newydd?*

*Yn y palas yn Shwshan mae Nehemeia, yn gweithio fel bwttler i'r brenin, pan ddaw ffrindiau i roi'r newyddion drwg iddo fod Jerwsalem wedi dioddef ymosodiad arall. Mae'r newyddion drwg yn achos gofid mawr iddo.*

*(Darllenwch Nehemeia pennod 1 i gael yr hanes)*

*At bwy ydych chi'n troi pan fydd rhywbeth yn peri gofid i chi? Mae hi'n bwysig i ni siarad gyda pherson arall a rhannu baich. Ond mae Nehemeia yn gwybod mor bwysig yw troi at Dduw hefyd. Mae gweddi Nehemeia yn batrwm o weddi i ni hefyd. Mae'n dechrau drwy gofio sut un yw Duw - un mawr a rhyfeddol, un ffyddlon a hael ac mae'n cydnabod ei ran ef a'i gydwladwyr yn yr hyn sydd wedi mynd o'i le. Mae hefyd yn gafael yn yr addewid gan Dduw i faddau i'w bobl a rhoi dechrau newydd iddyn nhw. Mae e'n gorffennu drwy ofyn am help i fod yn rhan o ddatrys y problemau sy'n ei wynebu ef a'i gydwladwyr.*

## Y SGWRS FAWR : Rhif 1

*(Pwyntiau i feddwl a thrafod)*

- 1) Beth yw'r pethau sy'n eich tristau chi am gyflwr Cristnogaeth yng Nghymru heddiw?
- 2) Beth yw'r pethau am fywyd yma ym Mangor, yng Nghymru ac yn ein byd ni heddiw sy'n pery gofid i chi?
- 3) Ym mha ffyrdd rydym yn rhannu peth o'r bai am gyflwr pethau heddiw?
- 4) Sut y medrwn ni helpu'n gilydd i wneud gweddi yn rhan fwy canolog o'n bywydau personol ac o fywyd yr Eglwys?
- 5) Ysgrifennwch weddi fer y byddwch yn hapus i'w rhannu gyda'ch cyd-aelodau.

## DIOLCH

*Dymuna Gareth Roberts, Trehywel ddiolch o galon i aelodau Emaus am eu holl garedigrwydd yn ddiweddar.*

## LLANAST LLAN

Dyna oedd teitl pantomeim diweddaraf Cwmni Llechen Las, Bethesda, a lwyfannwyd ym mis Ionawr. Chwaraewyd rhan Tomi Twp, cymeriad allweddol i'r stori, gan Glenda Jones, Lôn y Ffrwd. Dyma'r drydedd flwyddyn i Glenda gymryd rhan ac yn ôl ei harfer cafwyd perfformiad egniol ganddi. Llongyfarchiadau, Glenda. Yn ôl y son yr oedd Dr Deri Tomos yn rhan o'r perfformiad hefyd.

## CYDYMDEIMLO

Ddiwedd Rhagfyr, daeth y newyddion trist am farwolaeth un o'n haelodau sef Mrs Elsie Parry, Ffordd Penrhos. Rydym yn cydymdeimlo gyda Marian a Christine a'r teulu i gyd yn eu colled.

Ddechrau mis Ionawr, bu farw un arall o'n haelodau sef Mrs Bessie Jones, Ffordd Penrhos. Rydym yn anfon ein cydymdeimlad at ei dwy ferch, Wendy a Myra a'i mab Gareth, yn eu colled o fam, nain a hen nain annwyl. Cydymdeimlwn hefyd gyda Delyth Williams a'r teulu yn Lôn y Bryn ar golli ei mam ddechrau Rhagfyr.

*Boed i bawb ohonoch deimlo cariad a nerth Duw yn eich cynnal.*

## POBL I BOBL

Sefydlwyd elusen **Pobl i Bobl** yn benodol i ymateb i'r argyfwng ffoaduriaid ddechreuodd yn Ewrop rhyw bedair blynedd yn ôl. Mewn ymateb i'r argyfwng hwn cychwynwyd casglu dillad ar gyfer y gwersylloedd dramor. Bellach mae **Pobl i Bobl** wedi helpu i ddodrefnu nifer o dai yng Ngogledd Cymru gan roi help llaw pan fo angen i gynghorau Môn a Gwynedd. Heb eich cymorth chi, yn gymdeithasau ac yn gapeli, fydden ni ddim wedi gallu helpu cymaint.

Apêl yw hon yn gofyn am eitemau penodol. Rydym yn chwilio am 2 Hoover, cadeiriau cegin sy'n plygu, a cot a phram ar gyfer babi bach. Rhaid iddynt fod o ansawdd da/fel newydd.

Cysylltwch â mi os oes gennych rhywbeth i gyfrannu. Rydym hefyd yn derbyn dillad o bob math a gellir eu gollwng yn **Dr Zigs**, Stâd y Faenol, Llundun i Gwener rhwng 10 - 4. Diolch o galon am ein cefnogi.

*Esyllt (ar ran Pobl i Bobl)*